DPS15 Cyngor Celfyddydau Cymru

---

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

Datgarboneiddio'r sector cyhoeddus | Decarbonising the public sector

Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru | Evidence from Arts Council of Wales

---

Gan adeiladu ar waith Archwilio Cymru, hoffai'r Pwyllgor gael barn am y canlynol:

## 1. Beth yw eich barn am rôl Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwblhau'r pum cam a nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru?

Rydym yn gweld rôl Llywodraeth Cymru i gefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni'r pum cam fel a ganlyn:

- Parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref: Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos arweinyddiaeth gref drwy ganolbwyntio'n sylweddol a chynyddol ar newid hinsawdd a datgarboneiddio gan gynnwys y Rhaglen Lywodraethu bresennol a Chymru Sero. Fodd bynnag, er bod y canlyniadau yr ydym i gyd am eu cyflawni yn cael eu cydnabod yn eang fel rhai ataliol a hirdymor, ac yn gyffredin i bawb, yn ein barn ni mae angen datblygu'r 'sut' ymhellach – yn enwedig ffyrdd y gellir dod â llawer o'r mentrau hyn at ei gilydd a'u halinio i sefydliadau mewn cynllun gweithredu clir a chydweithredol. Gallai'r cynllun hwn wedyn gael ei ategu gan fframwaith gwerthuso cyffredin i sefydliadau ei fabwysiadu a'i ddefnyddio i fesur a monitro eu cynnydd eu hunain yn erbyn y camau gweithredu gofynnol, gan ddarparu cysondeb ac unffurfiaeth wrth adrodd.

- Archwilio'r posibilrwydd o ragolygon ariannol tymor hwy: mae rhagolygon ariannol tymor hwy yn dibynnu ar gadarnhad o lefelau ariannu gan ein Noddwr, Llywodraeth Cymru a'r elw o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol o'r DCMS. Mae'r ddau o'r rhain yn flynyddol, gan wneud rhagolygon tymor hwy yn fwy heriol. Byddai rhaglenni rhagolygon ariannol tymor hwy (e.e. cylchoedd 3 blynedd) os yn bosibl, yn fuddiol.

- Gwella aliniad blaenoriaethau allweddol: Ar hyn o bryd mae nifer o gyfrifoldebau deddfwriaethol a blaenoriaethau allweddol y mae'n ofynnol i ni eu cyflawni yn eu herbyn. Byddai aliniad gwell o'r rhain yn galluogi sefydliadau i ddatblygu llai o strategaethau sy'n fwy cynhwysfawr a chynlluniau tymor hwy.

- Darparu mynediad at adnoddau ariannol ychwanegol: Rydym yn cytuno â chanfyddiad adroddiad Archwilio Cymru bod ein hadnoddau o dan bwysau wrth ddarparu gwasanaethau craidd, a bod gennym ni fel sefydliad ddiffyg sgiliau arbenigol mewn lleihau allyriadau carbon. Mae diffyg adnoddau, yn ariannol ac yn ddynol, yn broblem. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gadw ein costau gweithredu ein hunain mor isel â phosibl ac felly, rydym wedi gweld gostyngiad o 25% yn ein gweithlu ein hunain o fewn Cyngor y Celfyddydau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyllid a gawn eisoes yn cael ei gyfrifo'n bennaf, drwy Fframwaith a Llythyrau Cylch Gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru, a Chyfarwyddiadau Polisi'r Loteri. Ni yw'r corff datblygu arweiniol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru ac rydym yn ymroi ein hadnoddau i gyflawni yn erbyn yr amcanion allweddol a amlinellir yn ein Siarter Frenhinol a'n Llythyrau Cylch Gwaith. Felly ychydig

o adnoddau sydd ar ôl i gefnogi ein datblygiad ein proses meddwl a strategaeth ar gyfer ystyriaethau newydd neu ychwanegol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod mwy o ffocws yn fwy diweddar ar ystyriaethau amgylcheddol bellach wedi'i gynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'n Llythyr Cylch Gwaith, a byddwn yn archwilio gyda Llywodraeth Cymru ffyrdd y gallai unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol fod ar gael i helpu a chefnogi'r gwaith o gyflawni targedau hyn.

## 2. Beth yw eich barn am ddefnyddio Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru, fel ffordd o roi cyfeiriad strategol i gyrff cyhoeddus?

Rydym yn croesawu trywydd Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys canlyniadau lefel uchel dros 3 chyfnod hyd at 2030. Er bod manylu ar y canlyniadau hyn yn ddefnyddiol i sefydliadau, gellid ei wella drwy ystyried y canlynol:

• Mwy o gyfeirio a hyrwyddo'r ddogfen hon,

• mae'r ddogfen ar hyn o bryd yn rhoi manylion am 'beth' sydd angen ei gyflawni ond nid 'sut'

• mae adnoddau a chyfleoedd yn amrywio'n sylweddol ar draws sefydliadau a rhwng sefydliadau a Llywodraeth Cymru

• nid yw'n cynnwys ystyriaeth o'r dulliau gweithredu cyfredol a newydd eu mabwysiadu y mae sefydliadau wedi'u cyflwyno yn sgil pandemig Covid. Pe bai pob un ohonom yn adeiladu ymhellach ar y rhain yn y camau cychwynnol (yn enwedig 2021-22) byddai hyn yn darparu cynnydd cynnar sylweddol a chyflawniad rhai o'r camau gweithredu hynny a adlewyrchwyd yng ngham olaf 2026-30, er enghraifft: Adeiladau: 2026- 2030 – "Nid ar adeiladau y mae'r ffocws bellach ond ar amgylcheddau iach i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw." A Symudedd a Thrafnidiaeth 2026-2030 – "Mae modelau darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn golygu bod llai o angen i staff,

ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau deithio." Byddai manteisio nawr ar y trefniadau hybrid presennol a gwaith o gartref a fabwysiadwyd gan lawer o sefydliadau yn 2021-22 yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r canlyniadau hyn yn gynnar.

• Mae cyflawni'r canlyniadau hyn yn gofyn am gyfranogiad, gweithredu a chefnogaeth gan bob sefydliad. Ni chyfeirir at atebolrwydd a chyfrifoldeb sefydliadau i gefnogi cyflawni'r nodau hyn ar hyn o bryd yn y ddogfen.

## 3. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn y meysydd gweithredu â blaenoriaeth a nodir yn y ddogfen: caffael cynaliadwy, adeiladau sero net, symudedd a thrafnidiaeth, a defnydd tir?

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd yn y broses o gyd-ddylunio Strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau mewn cydweithrediad â'r sector ac ystod eang o randdeiliaid, a fydd yn cael ei lansio yn 2023, yn unol â'n Cynllun Strategol newydd a'r Adolygiad Buddsoddi o'n

Portffolio Celfyddydol. Rydym wedi cynnwys cyfiawnder hinsawdd drwy greadigrwydd a gweithredu sy’n gynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ethegol, fel un o chwe egwyddor ein Hadolygiad Buddsoddi, a bydd cyfiawnder hinsawdd yn cael ei gynrychioli yn ein Cynllun Strategol newydd, sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Bydd y Strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wreiddio ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyrraedd carbon sero net ein hunain erbyn 2030 a chefnogi'r sector i gyrraedd sero net erbyn 2050. Wedi'i fframio gan Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol ac yn amlinellu ein hagwedd gyfannol a rhyngwladol i’n rôl wrth fynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur.

Drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Natur Greadigol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, mae CNC yn gweithredu fel partner allweddol yn y broses hon. Rydym wedi contractio Labordy Arloesi Prydain Di-Garbon Canolfan y Dechnoleg Amgen i arwain ar y broses o gyd-ddylunio’r strategaeth.

Mae’r strategaeth yn cael ei datblygu drwy broses o sgwrsio a chyd-ddylunio â sefydliadau ac unigolion o’r sectorau y celfyddydau a’r amgylchedd. Mae’r bensaernïaeth yn cael ei datblygu o amgylch y pum piler strategol a ganlyn:

• Datgarboneiddio: Sector y celfyddydau sy'n cyrraedd targedau allweddol Llywodraeth Cymru gan gynnwys sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a sector celfyddydau sero net erbyn 2050 fel rhan o Gymru Sero Net.

• Natur a Bioamrywiaeth: Sector y celfyddydau sy'n chwarae ei ran yn y gwaith o warchod natur a bioamrywiaeth, drwy reoli ei hadnoddau ei hun a thrwy ddefnyddio pŵer y celfyddydau i sicrhau newid.

• Dewisiadau Ethegol: Sector y celfyddydau sy'n ystyried ei effaith ar bobl a'r blaned yn lleol ac yn fyd-eang yn ei holl benderfyniadau.

• Creu Newid: Sector y celfyddydau sy'n gwireddu llawn botensial y celfyddydau i ddychmygu, cysylltu, cyfathrebu ac effeithio ar newid yng Nghymru a'r byd trwy werthoedd o empathi, cydsafiad ac iachâd.

• Cefnogi Artistiaid: Sector y celfyddydau lle mae artistiaid yn teimlo eu bod wedi'u galluogi, yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi i wneud gwaith sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd.

Ymdrinnir â'r blaenoriaethau a nodir ar gyfer gweithredu ar unwaith yn y Trywydd drwy'r pum piler hyn, y bydd ganddynt gynlluniau gweithredu cyfatebol ynghlwm wrthynt. Rhoddir sylw i Gaffael Cynaliadwy drwy'r piler Dewisiadau Ethegol. Rhoddir sylw i Symudedd a Thrafnidiaeth drwy'r piler Datgarboneiddio. O ran ein sefydliad ni ein hunain, mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru lai o gamau uniongyrchol i’w cymryd ynghylch Adeiladau Sero Net a Defnydd Tir gan nad ydym yn berchen ar adeiladau neu dir, ond bydd ein camau gweithredu yn y meysydd hyn yn canolbwyntio ar gefnogi sector y celfyddydau i leihau eu effaith eu hunain yn y meysydd hyn.

Rydym yn archwilio pŵer y celfyddydau i gysylltu pobl â byd natur fel ffocws allweddol i’n Partneriaeth Natur Greadigol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wrth symud ymlaen.

## 4. Beth yw eich barn am y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys unrhyw fylchau?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 10.

## 5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu codi o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn?

Mae camau gweithredu eraill yr ydym wedi'u cymryd sy'n cyfrannu'n ehangach at ein cynnydd ym meysydd Caffael cynaliadwy; Adeiladau sero net; Symudedd a thrafnidiaeth, a Defnydd tir fel a ganlyn:

• Creu Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'i gadeirio gan Aelod o'r Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor, Uwch Arweiniad a staff ar draws y sefydliad yn ogystal ag arbenigedd allanol. Mae’r Pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i’r Cyngor, ac yn ystyried ac yn monitro ein hamcanion a’n trefniadau mewnol ac allanol wrth ymateb i’n hymrwymiad a’n rhwymedigaethau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae'r Pwyllgor hwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith ac yn cyfrannu at ein Datganiad Ymddiriedolwyr yn ein Cyfrifon Blynyddol cyhoeddedig.

• Gyda'i gilydd mae gan bob aelod o'r Uwch Dîm Arwain gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gyfrifoldeb. Mae gan y Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Arwain, gyfrifoldebau penodol i sicrhau bod Cyngor y Celfyddydau yn cyflawni ei ymrwymiad a'i gyfrifoldebau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae cyfrifoldebau ategol tebyg hefyd wedi'u cynnwys mewn rolau Rheolwr Portffolio dynodedig sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwyr.

• Creu newidiadau yn ein swyddfa a threfniadau gweithredol sydd wedi arwain at gael achrediad lefel 5 y Ddraig Werdd yn 2014 a’i chadw ers hynny

• Cynlluniau Gwella Amgylcheddol yn eu lle ers 2009

• Monitro ac adrodd ar ein hôl troed carbon ein hunain a gynhyrchir drwy ein gweithgarwch wrth gyflawni ein hamcanion a sicrhau bod ein polisïau mewnol yn cefnogi ei leihau (e.e. Polisïau Teithio a Chynhaliaeth Staff a Gweithio’n Hyblyg).

• Gan adeiladu ar ein trefniadau gwaith mewn ymateb i bandemig Covid lle'r oedd gan yr holl staff yr offer i weithio gartref, rydym bellach wedi rhoi trefniadau gweithio hybrid ar waith ar gyfer staff ac wedi ad-drefnu ein swyddfeydd presennol. Bydd hyn yn arwain at leihad mewn gofynion teithio staff ac adnoddau (gan gynnwys cyfleustodau, nwyddau swyddfa ac ati) a ddefnyddir i hwyluso gofod swyddfa a gweithio mewn swyddfa.

• Trwy ymgysylltu allanol a mewnol, rydym ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith a fydd yn caniatáu i ni ddatblygu a mesur effaith ein gweithgareddau rhyngwladol yn erbyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a phob un o'r saith nod.

• Cymryd rhan mewn sgyrsiau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, a Grŵp Cyswllt Rhyngwladol y Pedair Gwlad i ddatblygu ein hymateb i’r Argyfyngau Hinsawdd a Natur.

• Trwy ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol rydym, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi cymryd camau uniongyrchol i fonitro a lleihau ein hôl troed carbon ein hunain.

Manylir ar lawer o'r camau hyn yn ein Cynlluniau Gweithredol blynyddol ac adroddir arnynt drwyddynt.

• Arwain ar ddatblygu Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru, gyda Chynhaliadwyedd Amgylcheddol yn un o’r pedair egwyddor.

• Rydym wedi datblygu a chyflwyno Cytundeb Ariannu ar gyfer ein cleientiaid Portffolio a ariennir yn graidd sy'n cynnwys eu gweithredoedd sy’n ymateb i ystyriaethau amgylcheddol trwy eu hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Chontract Diwylliannol eu hunain. Mae Aelodau Portffolio yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd i'w Byrddau eu hunain a'n Swyddogion.

• Rydym yn archwilio pa fesurau, hyfforddiant a chefnogaeth y gallem eu cyflwyno i'n cynorthwyo ni a'r sefydliadau a ariennir gennym er mwyn lleihau effaith amgylcheddol. Ymhlith y sefydliadau rydym wedi’u nodi a allai gynnig opsiynau cymorth mae’r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, Julie’s Bicycle, Creative Carbon Scotland, Cynnal Cymru, Canolfan y Dechnoleg Amgen.

- Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau y Bedair Wlad yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Creative Scotland ar bolisïau sy’n ymwneud ag Argyfwng Hinsawdd a chyflwyno dulliau teithio arafach a gwyrddach ar gyfer y celfyddydau ledled y DU ac Iwerddon.